

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

A OES MODD I CHI GRYFHAU EIN GWASANAETH?

PENNAETH AD, DYSGU A DATBLYGU
Cyflog £57,650 yn ogystal â defnydd Car Les y Gwasanaeth

Dyfarniad Tâl yn Arfaethedig

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf, mwyaf llwyddiannus ac uchaf ei berfformiad yn y DU, yn gwasanaethu 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol yn ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym wedi adeiladu enw da am ragoriaeth wrth ddarparu ein gwasanaethau; o ymateb i ddigwyddiadau brys i amrediad trawiadol a rhagorol o fentrau ataliol ac addysgiadol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymrwymedig i wneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, i weithio ac i ymweld â hwy. Wrth ganolbwyntio ar amddiffyniad cymunedol, atynnu a datblygu ein pobl a gwneud defnydd effeithiol o'n hadnoddau, rydym yn ymdrechu at welliant a rhagoriaeth sefydliadol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n chwilio i benodi Pennaeth AD, Dysgu a Datblygu bydd yn cynnal gwerthoedd y Gwasanaeth o fod yn broffesiynol, yn ofalgar, yn barchus, yn bwrpasol, yn ddibynadwy, yn rymus, yn ddisgybledig ac yn hydwyth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arddangos agwedd frwdfrydig ac arloesol o ran arwain ardal Gwasanaeth fawr gan adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwyr AD, Dysgu a Datblygu (DBS Gwasanaethau Pobl).

Bydd hwn yn gyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus ddyrchafu diwylliant a gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, wrth ddarparu rheolaeth strategol, ac wrth adeiladu a chynnal perfformiad uchel fydd yn cyfrannu at wasanaethau a ddarperir i gymunedau a phobl De Cymru i'r dyfodol. Yn ychwanegol at ofynion y rôl heriol hon, bydd cyfle sylweddol a chyffrous i'r ymgeisydd llwyddiannus gynorthwyo â datblygu rôl y Gwasanaeth mewn cyd-destun gwasanaethau cyhoeddus o fewn Cymru a gweddill y DU.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus arddangos sgiliau cynllunio, sgiliau trefnu a sgiliau cryf â phobl. Bydd sgiliau cyfathrebu a sgiliau perthynas/rhwydweithio rhagorol yn allweddol i gynghori Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub ar lefel strategol a gweithio mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub eraill a sefydliadau partner.

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd ag ystod o brofiad ac sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau effeithiol yn seiliedig ar farn gytbwys.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymrwymedig i degwch yn y gweithle a bydd yn cyflawni hwn yn llwyddiannus wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau priodol yn effeithiol, drwy law staff a thrwy ddarparu'r gwasanaeth.

Yn gyffredinol bydd yr oriau gwaith yn 37 awr yr wythnos. Fodd bynnag, oherwydd natur y rôl, ni ellir ei ymgymryd yn foddhaol o fewn wythnos waith sefydlog, bydd angen rhai

elfennau o oriau anghymdeithasol wrth gyflawni cyfrifoldebau'r swydd a bod yn gynrychiolydd i'r Gwasanaeth mewn digwyddiadau.

Mae'r amgylchiadau hyn a threfniadau gwaith yr Awdurdod Tân ac Achub yn debygol o'ch ymrwymo i fod ar gael i weithio am gyfnodau estynedig o ran argaeledd ac i swm sylweddol o waith sy'n ychwanegol at, a thu hwnt i oriau gwaith arferol.

Aelod llawn o SSPCh (CIPS), wedi'i addysgu hyd lefel gradd gyda chymhwyster AD ôl radd neu gymhwyster rheoli perthnasol. Yn ogystal, rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn brofiadol gyda hanes hir o ddarparu newid cadarnhaol, o ddatblygu gweithwyr yn effeithiol, o berthnasau diwydiannol cadarnhaol a rheoli perfformiad llwyddiannus. Mae gwybodaeth o gyfraith gyflogaeth gyfredol a pherthnasol yn hanfodol yn ogystal â dealltwriaeth o ddimensiynau gwleidyddol cyfreithiol ac ariannol y rôl. Bydd angen i chi fod yn feddyliwr strategol a chreadigol ac yn gyfathrebwr cryf. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn aelod gweithredol o Gyngor y Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) drwy law aelodaeth gorfforaethol y Gwasanaeth.

Lleolir y swydd ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, Pont-y-clun, CF72 8LX neu unrhyw un o leoliadau eraill y Gwasanaeth.

I gael trafodaeth anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl Alison Reed ar 01443 232024.

I wneud cais dilynwch y ddolen hon: <https://www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us/latest-vacancies/> Cyflwyniadau i gyrraedd y tîm Recriwtio erbyn **hanner dydd ar 28 Mawrth 2023**.

Amserlen Penodi

Gweithgaredd	Dyddiad
Canolfan Asesu	13eg a 14eg Ebrill 2023
Cyfweliad Proffesiynol – Tîm Arwain Gweithredol	15fed a/neu 16eg Mai 2023

Mae GTADC yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o gymuned y GTA i ymgeisio.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg ill dau.